
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir Penfro

Cyhoeddwyd: Chwefror 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 108A2012

# Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gefnogaeth gan Non Jenkins, Jeremy Evans a chydweithwyr o dan gyfarwyddyd Alan Morris i gynnal yr Asesiad o Welliant ac i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** **4**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 9

Mae gan y Cyngor ddiwylliant cadarnhaol o barch ac ymddiriedaeth a dull cyson, cynyddol o wella, ond mae diffygion sylweddol wedi'u nodi mewn rhai gwasanaethau a threfniadau, sydd wedi arwain at argymhellion statudol y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy 10

Mae'r Cyngor yn gwella ei gynlluniau a'i drefniadau ar gyfer cyflawni gwelliant er bod gormod o anffurfioldeb a diffyg ymgysylltu ag aelodau a diffyg her 11

Mae'r gwelliant mae'r Cyngor yn ei gyflawni mewn meysydd blaenoriaeth yn amrywio 21

Mae perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn gyson, ond mae'r Cyngor wedi methu rheoli rhai risgiau a heriau sylweddol, gan arwain at ddeilliannau gwael i rai pobl mewn angen. Fodd bynnag, mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru 21

Barnwyd bod angen gwelliant sylweddol mewn addysg yn sgil diffygion mewn meysydd pwysig 24

Cafwyd cyflawniadau clir i wneud yr ardal yn lle diogel, ffyniannus a dymunol, ond mae ffocws rhai o'i flaenoriaethau'n ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor ddangos effaith ar ei ben ei hun 27

Mae adroddiadau'r Cyngor ar ei berfformiad yn parhau i wella, ond mae angen i'w broses ar gyfer gwerthuso cryfderau a gwendidau fod yn fwy heriol mewn rhai meysydd 30

**Atoiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 35

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro 36

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig i Aelodau Cyngor Sir Penfro 38

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Penfro 40

**Atodiad 5**
Crynodeb o gynnydd Cyngor Sir Penfro yn erbyn cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella 42

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf.

2 Mae Adroddiad Gwella Blynyddol eleni ar gyfer Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) yn gwneud defnydd helaeth o ganfyddiadau tri adroddiad pwysig. Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd Estyn, yr arolygiaeth addysg yng Nghymru, ei adroddiad ar wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Benfro. Ym mis Awst 2011 hefyd, cynhyrchodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Estyn adroddiad ar y cyd ar drefniadau diogelu plant mewn addysg. Arweiniodd ganfyddiadau beirniadol y ddau adroddiad hyn yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal Arolygiad Arbennig, a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2012.

3 Mae tair prif ran i'r adroddiad hwn, sy'n ymdrin â sut mae'r Cyngor yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

4 At ei gilydd, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod gan y Cyngor ddiwylliant cadarnhaol o barch ac ymddiriedaeth a dull cyson, cynyddol o wella, ond mae diffygion sylweddol wedi'u nodi mewn rhai gwasanaethau a threfniadau, sydd wedi arwain at argymhellion statudol y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy.

5 Canfuom fod y Cyngor yn gwella ei gynlluniau a'i drefniadau ar gyfer cyflawni gwelliant er bod gormod o anffurfioldeb a diffyg ymgysylltu ag aelodau a diffyg her. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae rhai gwendidau yn nhrefniadau goruchwylio ac atebolrwydd y Cyngor;
- mae'r Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol ac mae ei strategaeth ariannol tymor canolig wedi'i chytuno;
- mae'r Cyngor yn symud ymlaen gyda gwerthuso swyddi, statws sengl a chynllunio'r gweithlu, ond nodwyd diffygion yn arfer yr adran Adnoddau Dynol;
- mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd technoleg, ac mae ganddo'r cynlluniau, y sylfeini technoleg a'r trefniadau llywodraethu yn eu lle i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac i drawsnewid gwasanaethau;
- mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth wedi cynorthwyo rhywfaint o welliant dros y blynyddoedd diwethaf;
- mae'r Cyngor yn ymroddedig i wella'i drefniadau cydweithio a'i drefniadau gweithio mewn partneriaeth ymhellach;
- mae'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd yn dal i ddatblygu; ac
- mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ac mae ar y trywydd iawn i gael Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith erbyn mis Ebrill 2012.

6 Canfuom hefyd fod y gwelliant mae'r Cyngor yn ei gyflawni mewn meysydd blaenoriaeth yn amrywio. Seiliom y casgliad hwn ar y canlynol:

- Mae perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn gyson, ond mae'r Cyngor wedi methu rheoli rhai risgiau a heriau sylweddol, gan arwain at ddeilliannau gwael i rai pobl mewn angen. Fodd bynnag, mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Barnwyd bod angen gwelliant sylweddol mewn addysg yn sgil diffygion mewn meysydd pwysig.
- Cafwyd cyflawniadau clir i wneud yr ardal yn lle diogel, ffyniannus a dymunol, ond mae ffocws rhai o'i flaenoriaethau yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor ddangos effaith ar ei ben ei hun.

7 Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod adroddiadau'r Cyngor ar ei berfformiad yn parhau i wella, ond mae angen i'w broses ar gyfer gwerthuso cryfderau a gwendidau fod yn fwy heriol mewn rhai meysydd.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

8 Mae adroddiad yr Arolygiad Arbennig wedi gwneud nifer o argymhellion y mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi datganiad gweithredu ar eu cyfer o fewn 30 diwrnod o dderbyn yr adroddiad hwnnw. Gellir gweld adroddiad yr Arolygiad Arbennig ar ein gwefan: www.wao.gov.uk

9 Mae'r saith argymhelliad statudol a wnaed i'r Cyngor yn yr Arolygiad Arbennig i gyd yn ymwneud â materion llywodraethu. Mae'r adroddiad arolygu yn argymell bod y Cyngor:

| Argymhellion ar gyfer gwelliant | |
|---|---|
| **A1** | Mewn fformat hawdd ei ddeall, yn nodi'n glir y rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, yn benodol ar gyfer y:<br>• Cabinet<br>• Pwyllgorau Craffu<br>• Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol/Archwilio<br>• Tîm Rheoli Corfforaethol |
| **A2** | Sicrhau bod dogfennaeth briodol yn cael ei chadw o gyfarfodydd, cynigion ac achosion busnes a phenderfyniadau, a'u bod ar gael yn hawdd, er mwyn darparu sicrwydd bod y broses benderfynu yn un briodol a thryloyw. |
| **A3** | Cymryd camau i sicrhau bod Cynghorwyr yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'u bod yn cael cefnogaeth effeithiol ym mha rôl bynnag maent yn ei chyflawni; gan gynnwys drwy:<br>• nodi disgrifiadau rôl;<br>• cyflwyno hyfforddiant penodol i rolau;<br>• gwerthuso effeithiolrwydd Cynghorwyr yn eu rolau; ac<br>• ystyried sut y gellir cefnogi'r broses graffu yn well. |
| **A4** | Nodi'n glir, mewn polisi neu brotocol, pa wybodaeth y gall Cynghorwyr ddisgwyl ei derbyn, pa mor aml a'r dulliau cyfathrebu. |

| Argymhellion ar gyfer gwelliant | |
|---|---|
| **A5** | Sicrhau bod rhaglenni craffu yn gyson â busnes strategol y Cyngor; i gynnwys: |
| • | craffu ar gyllideb a pherfformiad yn amlach; |
| • | craffu ar bolisi ac arfer corfforaethol; |
| • | trosolwg a chraffu ar risgiau; |
| • | trosolwg a chraffu ar bolisi ac arfer cydraddoldebau ac amrywiaeth; a |
| • | sicrhau bod blaenraglen waith y Cabinet yn cael ei rhannu gyda chadeiryddion pwyllgorau craffu yn amserol. |
| **A6** | Parhau â diwygiadau i'r Cyfansoddiad er mwyn gwella bod yn agoredrwydd, tryloywder ac i hyrwyddo her effeithiol. |
| **A7** | Rhoi trefniadau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod mecanweithiau rheoli a goruchwylio yn effeithiol. |

10 Mae ein gwaith arall wedi'n harwain ni i dynnu sylw at y cynigion canlynol ar gyfer gwella:

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Dylai'r Cyngor, wrth adolygu ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth, fynd ati hefyd i werthuso'r trefniadau cydweithredu a secondio rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda er mwyn asesu pa mor effeithiol a chynaliadwy yw'r trefniadau hyn. |
| **C2** | Dylai'r Cyngor barhau i ddatblygu ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu er mwyn darparu hunanwerthusiad cadarnach o'u heffeithiolrwydd yn erbyn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol. |
| **C3** | Er mwyn cefnogi ei allu i werthuso a chynnal gwelliant, dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod targedau a osodir yn ystyriol ac yn heriol;<br>• datblygu mesurau llwyddiant mwy priodol yn seiliedig ar ddeilliannau;<br>• gwahaniaethu rhwng camau gweithredu tymor byr, tymor hir a thymor canolig; a<br>• datblygu sail dystiolaeth fwy cynhwysfawr i werthuso cynnydd, fel meincnodi, adborth defnyddwyr, adolygiadau mewnol ac allanol. |
| **C4** | Dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella rydym wedi'u hamlinellu yn ein hadroddiadau adborth ar astudiaethau thematig. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

11 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

12 O dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg) ac Asiantaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

13 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

14 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae gan y Cyngor ddiwylliant cadarnhaol o barch ac ymddiriedaeth a dull cyson, cynyddol o wella, ond mae diffygion sylweddol wedi'u nodi mewn rhai gwasanaethau a threfniadau, sydd wedi arwain at argymhellion statudol y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy

15 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod iddo'i hun, a rhai materion allweddol eraill yn ymwneud â gwaith arolygiaethau eraill a'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar adborth ac adroddiadau archwilio cynharach a roddwyd i'r Cyngor, gan gynnwys yr adroddiad ar yr Arolygiad Arbennig, ac mae'r casgliadau wedi'u seilio ar ein gwybodaeth gronnus a'n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith a wnaed eleni.

## Mae'r Cyngor yn gwella ei gynlluniau a'i drefniadau ar gyfer cyflawni gwelliant er bod gormod o anffurfioldeb a diffyg ymgysylltu gan aelodau a diffyg her

16 Mae'r Cyngor wedi bod yn destun craffu sylweddol gan reoleiddwyr, arolygiaethau, a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ystod 2011.

17 Ar 20 Mehefin 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr i'r Cyngor yn rhoi diweddariad ar ei Asesiad Corfforaethol yn 2010. Roedd y prif gasgliadau yn cynnwys bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswyddau yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12, gan gynnwys ei ddyletswyddau i roi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus, oherwydd:

- roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â materion y gweithlu;
- roedd y Cyngor yn glir ynglŷn â'i amcanion gwella a beth sydd angen iddo'i wneud i'w cyflawni; ac
- mae'r Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, er bod angen iddo ffurfioli ei gynlluniau ariannol tymor canolig o hyd.

18 Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd Estyn, yr arolygiaeth addysg yng Nghymru, ei adroddiad ar y gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Benfro. Barnodd fod gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn 'anfoddhaol' at ei gilydd, a bod ei allu i wella yn 'anfoddhaol' hefyd.

19 Roedd yr adroddiad arolygu'n cynnwys chwech o argymhellion, a chyflwynodd y Cyngor gynllun gweithredu i Estyn i ddangos beth fyddai'n ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain.

20 Noda'r adroddiad arolygu: 'Mae Estyn o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod, a hynny'n benodol yn sgil diffygion ym meysydd pwysig diogelu ac mewn methiannau cysylltiedig mewn diwylliant a systemau corfforaethol. Bydd yn ofynnol ailarolygu'r awdurdod. Bydd dyddiad a ffocws yr ailarolygiad yn cael eu pennu gan Estyn maes o law.'[1]

21 Gellir gweld mwy o fanylion am yr adroddiad arolygu hwn gan Estyn yn http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/668LAESCYP/

22 Ym mis Awst 2011 hefyd, cynhyrchodd AGGCC ac Estyn adroddiad ar y cyd ar drefniadau diogelu plant mewn addysg. Dywedodd: 'Mae'r ffaith nad oes system lywodraethu effeithiol ar waith mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant yn adlewyrchu'r methiannau penodol a geir o fewn diwylliant yr awdurdod yn gyfan gwbl. Mae'r diffygion a welir o ran trefniadau'r awdurdod i ddiogelu ac amddiffyn plant yn hirsefydledig ac yn systematig. Mae hyn yn arwydd o natur sylfaenol y problemau hyn a methiannau o fewn yr awdurdod'[2]

23 O ganlyniad, sefydlwyd Bwrdd Cynghori Gweinidogol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i gynghori'r Cyngor a monitro'i gynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad yr ymchwiliad.

24 24 Gwellir gweld mwy o fanylion am adroddiad yr ymchwiliad ar y cyd gan AGGCC ac Estyn yn http://wales.gov.uk/docs/cssiw/report/110811pemben.pdf

1 *Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc yng Nghyngor Sir Penfro* - Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Mehefin 2011.

2 *Ymchwiliad ar y cyd i'r ffordd y rheolir ac yr ymdrinnir â honiadau o gam-drin proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant mewn gwasanaethau addysg yng Nghyngor Sir Penfro* – Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn – Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Awst 2011.

25 Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd AGGCC ei adroddiad ar ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o berfformiad y Cyngor mewn gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2010-11. Mae rhai o'r materion a godwyd yn ymwneud â pha mor dda mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwelliant, fel a ganlyn.

26 'Mae diogelu oedolion yn parhau'n faes perfformiad cryf i'r Cyngor gydag arweinyddiaeth effeithiol y cydlynydd, ond mae angen iddo sicrhau bod trefniadau cyson ar waith bob amser.

27 Mae llawer o waith wedi'i gwblhau (mewn gwasanaethau plant) gyda'r adolygiad mewnol o gapasiti a strwythur yr asesiad o'r trefniadau rheoli gofal. Dylai'r trefniadau diwygiedig wella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth gwasanaethau llinell flaen. I gyflawni hyn bydd angen arweinyddiaeth gref, rheoli newid yn gadarn a chymorth corfforaethol da i sicrhau llwyddiant y cynllun.'[3]

28 Gellir gweld rhagor o fanylion am y cryfderau hyn a'r meysydd i'w datblygu yn Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol AGGCC sydd ar gael ar wefan AGGCC: http://wales.gov.uk/docs/cssiw/publications/LA_evaluation1011/111028pemben.pdf.

29 Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i gynnal arolygiad arbennig ym mis Tachwedd 2011 i lywodraethu corfforaethol yng Nghyngor Sir Penfro[4]. Cyhoeddwyd yr Arolygiad Arbennig ym mis Ionawr 2012. Nodir prif gasgliadau'r Arolygiad Arbennig isod.

30 'Mae gan y Cyngor ddiwylliant cadarnhaol o barch ac ymddiriedaeth sydd wedi sicrhau buddion; fodd bynnag, mae gormod o anffurfioldeb a diffyg herio effeithiol a chyson wedi gwanhau atebolrwydd, sy'n golygu bod y Cyngor yn agored i risg ddiangen:

- Mae gan y Cyngor hanes o reoli sefydlog, stiwardiaeth ariannol dda, a dull cyson, cynyddol o wella.
- Mae diwylliant o barch ac ymddiriedaeth y naill at y llall yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr a swyddogion, ac mae hynny'n arwain at berthnasoedd gweithio cynhyrchiol.
- Mae diffyg eglurder a dealltwriaeth mewn perthynas â rhai rolau a chyfrifoldebau, ynghyd â rhywfaint o ddiffyg tryloywder, yn golygu nad yw herio effeithiol yn nodwedd gyson o'r llywodraethu.
- Mewn rhai achosion, mae dibynnu'n ormodol ar ddulliau rheoli anffurfiol wedi gwanhau atebolrwydd ac wedi arwain at rywfaint o hunanfodlonrwydd a bod yn agored i risg. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn yn awr'.

3 *Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2010/2011 Cyngor Sir Penfro* – Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 31 Hydref 2011.

4 *Arolygiad Arbennig: Cyngor Sir Penfro* – Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2012.

## Mae rhai gwendidau yn nhrefniadau goruchwylio ac atebolrwydd y Cyngor

31 Roedd Arolygiad Arbennig yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys rhai casgliadau penodol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Cyngor, fel a ganlyn:

- mae diffyg eglurder a dealltwriaeth mewn perthynas â rhai rolau a chyfrifoldebau;
- mae rhywfaint o ddiffyg tryloywder gan nad yw gwybodaeth bob amser yn cael ei rhannu fel rhan o'r drefn; ac
- nid yw herio effeithiol yn nodwedd gyson o'r llywodraethu.

Fel y nodwyd yn yr adran Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella uchod, mae'r Arolygiad Arbennig yn gwneud saith o argymhellion statudol i'r Cyngor, ac mae pob un ohonynt yn ymwneud â materion llywodraethu.

32 Barnodd adroddiad arolygu Estyn ar wasanaethau addysg a gyhoeddwyd ym mis Awst 2011 fod arweinyddiaeth addysg y Cyngor yn anfoddhaol.

33 Daeth ymchwiliad AGGCC ac Estyn i drefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu plant mewn addysg ym mis Awst 2011 i'r casgliad: 'Bu diffyg goruchwyliaeth gan aelodau etholedig a swyddogion, ar y lefel uchaf o fewn yr awdurdod, o'r broses rheoli achosion ac ymdrin ag achosion o gam-drin proffesiynol honedig mewn gwasanaethau addysg. Mae'r ffaith nad oes system lywodraethu effeithiol ar waith mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant yn adlewyrchu'r methiannau penodol a geir o fewn diwylliant yr awdurdod yn gyfan gwbl.'

34 Adroddodd AGGCC ym mis Hydref 2011 yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 fod rhai meysydd cryfder a meysydd i'w gwella mewn perthynas â threfniadau arwain a llywodraethu'r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- arfer diogelu oedolion ac arweinyddiaeth effeithiol barhaus y tîm diogelu; a
- nodau a gweledigaeth glir i'r Cyngor;

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei ddatblygu/ei wella:

- datblygu capasiti arwain ychwanegol o fewn y tîm diogelu;
- parhau i reoli'r farchnad allanol yn dilyn canlyniad yr adolygiad barnwrol; a
- sicrhau bod trefniadau craffu cadarn ar waith a bod tystiolaeth o hynny.'

35 Buom yn arsylwi nifer o gyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd y Cyngor yn gynharach yn 2011 a daethom i'r casgliad canlynol:

- Roedd gwybodaeth briodol a pherthnasol yn cael ei darparu i'r Pwyllgor. Roedd cyflwyniadau, er eu bod yn or-dechnegol weithiau, yn cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth ac i ysgogi trafodaeth.
- Roedd dull cadeirio cynhwysol yn helpu sicrhau bod y cyhoedd a'r tystion a oedd yn mynychu'r cyfarfod yn cael eu croesawu a'u cynnwys.
- Roedd rolau a chyfrifoldebau yn ddigon clir yn y cyfarfodydd a arsylwyd.

- Roedd y trafod yn agored ac yn cael ei reoli'n dda gan y Cadeirydd. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau'n cyfranogi yn y trafodaethau, ond roedd y trafod at ei gilydd yn cefnogi 'goruchwylio' yn hytrach na chwestiynau treiddiol a manylach i gefnogi'r craffu.

36 Gwnaed rhai awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, gan gynnwys y canlynol:

- helpu gyda'r gwaith o reoli'r adroddiadau sy'n destun craffu, a sicrhau bod pawb yn glir pam mae adroddiadau ar yr agenda, a dylid esbonio diben pob adroddiad neu gyflwyniad yn glir;
- sicrhau bod cyflwyniadau a gwybodaeth arall yn cael eu cyflwyno yn y ffordd fwyaf priodol i gynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl graffu; a
- gwella'r sgiliau sydd eu hangen ar aelodau i ddatblygu cwestiynau mwy treiddiol a thrywyddau ymholi gwell er mwyn helpu cyflawni proses graffu fwy effeithiol a mwy dylanwadol.

37 Mae'r Cyngor, drwy ei Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, hefyd yn ymgymryd ag adolygiad drwyddi draw o'i gyfansoddiad. Mae pob un o'r cynghorwyr yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn, ac mae'r Cyngor wedi cyflogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud gwaith ymchwil ar ei ran a fydd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor er mwyn llywio'i drafodaethau.

## Mae'r Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol ac mae ei strategaeth ariannol tymor canolig wedi'i chytuno

38 Adroddodd ein llythyr Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol 2011 i'r Cyngor ei fod mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, a'i fod wedi dod i'r casgliad y gall gynnal y lefelau gwasanaeth presennol o fewn y setliadau ariannol rhagamcanedig. Ar y pryd, nid oedd y strategaeth ariannol tymor canolig wedi'i chytuno eto.

39 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cytuno ei gynllun ariannol tymor canolig am y cyfnod Ebrill 2011 i Fawrth 2014, a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Hydref 2011.

40 Gan y Cyngor y bu'r gyfradd dreth gyngor isaf o bob un o'r 22 awdurdod yng Nghymru (yn seiliedig ar eiddo band D). Mae hyn wedi parhau ar gyfer 2011-12 ac mae'r cynllun ariannol tymor canolig wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y bydd y dreth gyngor yn aros yn gyson mewn termau 'real' dros y cyfnod tair blynedd.

41 Bydd angen i swyddogion adolygu ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun, gan sicrhau bod aelodau'n gallu ystyried hyn wrth osod ac adolygu blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor. Un o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Arolygiad Arbennig yr Archwilydd Cyffredinol yw bod angen ymgysylltu'n amlach â chynghorwyr wrth fynd ati i fonitro a chraffu ar gyllid a chyllideb y Cyngor.

42 Noda'r Arolygiad Arbennig: 'Mae gan y Cyngor hanes cadarn o gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo, ac mae wedi rhoi blaenoriaeth i gadw'r dreth gyngor yn isel o gymharu â chynghorau eraill Cymru. Am nifer o flynyddoedd y dreth gyngor ar gyfer eiddo band D yn Sir Benfro fu'r isaf yng Nghymru. Adroddodd llythyr Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol 2011 yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cyngor ei fod mewn lle da i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, a bod y Cyngor wedi dod i'r casgliad y gall gynnal y lefelau gwasanaeth presennol o fewn y rhagolygon setliadau ariannol. Fodd bynnag, ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau'r cyllid sydd ar gael i foderneiddio ysgolion, ac felly bydd rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i £30 miliwn ychwanegol; bydd hyn yn gofyn am wneud penderfyniadau anodd ynghylch fforddiadwyedd lefelau gwasanaeth presennol.'

43 Noda'r arolygiad hefyd 'Ers ei ffurfio, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull cyson, cynyddol o wella, gan na fu unrhyw angen amlwg am newid sylweddol. Nawr, fodd bynnag, o gofio canfyddiadau diweddar yr adroddiadau gan Estyn ac AGGCC, a'r angen i ailystyried cyllid gyda gostyngiadau posibl mewn gwasanaeth, mae'r Cyngor yn wynebu heriau nas gwelodd erioed o'r blaen yn ei hanes. Bydd angen cynnal priodweddau cadarnhaol arweinyddiaeth gadarn ac ethos tîm cryf yn wyneb yr heriau hyn. Hefyd, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod gwelliannau diweddar wrth adrodd am ei berfformiad yn parhau er mwyn sicrhau bod Cynghorwyr a thrigolion yn gallu deall yn llawn y dewisiadau mae'r Cyngor yn eu hwynebu yng nghyd-destun lefelau gwasanaeth presennol, perfformiad, a'r adnoddau sydd ar gael.' Mae'r Cyngor yn adeiladu capasiti drwy arbedion effeithlonrwydd o £2 miliwn yn 2010-11, drwy reoli swyddi gweigion, mireinio strwythurau rheoli a chaffael.

44 Adroddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2011 fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n ymwneud ag adroddiadau ariannol, er bod rhai meysydd lle gellir gwella hyn. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

45 Barnodd adroddiad arolygu Estyn ym mis Awst 2011 fod y trefniadau rheoli adnoddau er mwyn cyflawni gwerth am arian mewn addysg 46 Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 beth mae'r Cyngor yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddo'i ddatblygu neu wella mewn perthynas â rheoli adnoddau, fel a ganlyn:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- rheoli pwysau ariannol yn effeithiol; a
- datblygu strategaethau comisiynu mewn rhai meysydd gwasanaeth, gan gynnwys pobl hŷn a phobl â dementia.

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei wneud i ddatblygu/gwella:

- gwella cysylltiadau rhwng gwasanaethau llinell flaen a chomisiynu er mwyn llywio datblygu gwasanaethau'r sector annibynnol.'

47 Nododd gwerthusiad AGGCC hefyd fod y Cyngor yn adrodd na fu unrhyw orwariant naill ai yn y gyllideb gorfforaethol na'r gyllideb

gofal cymdeithasol ar gyfer 2010-11.

## Mae'r Cyngor yn symud ymlaen gyda gwerthuso swyddi, statws sengl a chynllunio'r gweithlu, ond nodwyd diffygion yn arfer yr adran Adnoddau Dynol

48 Adroddodd ein llythyr Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol 2011 fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda statws sengl ac wrth gynllunio'r gweithlu a rheoli perfformiad staff.

49 Nid yw'r Cyngor wedi cwblhau ei drafodaethau eto i gyflawni cytundeb statws sengl ar gyfer tâl cyfartal, ond mae'n disgwyl gwneud hynny tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12. Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor yn gwerthuso swyddi, ac mae'n disgwyl dod i gytundeb gyda'r staff yn ystod y chwe mis nesaf. Dylai datrys gwerthuso swyddi a statws sengl roi mwy o sicrwydd i'r Cyngor ynghylch ei gostau cyflogau yn y dyfodol, wrth iddo barhau i fireinio'r cynllun ariannol tymor canolig.

50 Adroddodd arolygiad Estyn ym mis Awst 2011: 'Nid yw systemau'r awdurdod lleol ar gyfer recriwtio'n ddiogel, ac ar gyfer asesu risg gweithgareddau ac unigolion a allai beri bygythiad i blant a phobl ifanc, yn addas i'r diben.'

51 Dywedodd adroddiad ymchwiliad AGGCC ac Estyn ar y trefniadau i ddiogelu plant mewn addysg ym mis Awst 2011: 'Nid yw prif swyddogion ac uwch reolwyr wedi goruchwylio'r swyddogaeth personél yn ddigonol mewn perthynas â diogelu ar draws yr awdurdod.'

52 Adroddodd AGGCC hefyd yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 am rai meysydd lle mae adnoddau dynol y Cyngor yn gwneud yn dda, fel a ganlyn:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- cynnydd gyda statws sengl, wrth gynllunio'r gweithlu a rheoli perfformiad staff; a
- sefydlu rhaglen o ddiogelu a hyfforddiant o ansawdd da.

53 Canfu Arolygiad Arbennig yr Archwilydd Cyffredinol 'Mae system arfarnu perfformiad ar waith lle caiff perfformiad ei adolygu ddwywaith y flwyddyn. Gosodir targedau i bobl, ac mae sampl o arfarniadau yn cadarnhau fod y rhain yn glir ac yn gallu cael eu gwerthuso fel rhai a gyflawnwyd neu beidio. Ond canfuom rywfaint o dystiolaeth nad yw'r broses arfarnu perfformiad yn cael ei gweithredu'n gyson ar gyfer pob aelod o staff, ac y gall mewn rhai achosion fod yn llai manwl gyda dogfennau heb esbonio perfformiad yn ddigonol y tu hwnt i'r arwynebol.

54 Canfu'r arolygiad enghreifftiau hefyd o 'uwch reolwyr heb fod yn gwirio bod cyfarwyddiadau wedi'u dilyn i'r safon ddymunol, ac yn gwneud y rhagdybiaeth bod eu hatebolrwydd wedi'i gyflawni ar ôl rhoi cyfarwyddyd. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod proses arfarnu perfformiad yn bodoli nid fel digwyddiadau untro ddwywaith y flwyddyn yn unig, ond ei fod yn offeryn rheoli parhaus a bod gwirio syml yn ddilys ac yn angenrheidiol i gael sicrwydd bod gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u cyflwyno'n briodol.' Byddwn yn cynnal adolygiad pellach o drefniadau adnoddau

dynol y Cyngor yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a bydd y deilliannau'n cael eu hadrodd yn ein llythyr Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol nesaf.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd technoleg, ac mae ganddo'r cynlluniau, y sylfeini technoleg a'r trefniadau llywodraethu yn eu lle i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac i drawsnewid gwasanaethau

55 Daeth ein hadolygiad o'r modd y mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg, sy'n hanfodol ar gyfer trawsnewid cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, gwella deilliannau i ddinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, i'r casgliad:

- Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd technoleg; mae ganddo'r cynlluniau, y sylfeini technoleg a'r trefniadau llywodraethu yn eu lle i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid gwasanaethau; ond mae angen iddo fanteisio'n llawn ar dechnoleg er mwyn hyrwyddo sicrhau buddion i'r eithaf.
- Mae trefniadau presennol yn gadarn, a cheir rhai enghreifftiau o arfer da.
- Mae perfformiad yn gadarn, ond mae diffyg craffu a herio effeithiol gan aelodau. Bydd capasiti'r Cyngor i barhau i gyflawni newidiadau technoleg a chynyddu gofynion heb effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth yn her.

## Mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth wedi cynorthwyo rhywfaint o welliant dros y blynyddoedd diwethaf

56 Yn sgil y pwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen hyrwyddo a manteisio i'r eithaf ar y wybodaeth sy'n cael ei chadw i gyflwyno a chynllunio ar gyfer gwasanaethau o safon yn effeithiol. Daeth ein hadolygiad o'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli gwybodaeth i'r casgliad:

- mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth wedi cynorthwyo rhywfaint o welliant dros y blynyddoedd diwethaf;
- mae angen cryfhau trefniadau presennol er mwyn darparu mwy o berchenogaeth gorfforaethol, a rheolaeth a chyfeiriad, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o ran rheoli'r risgiau a gyflwynir gan wybodaeth wrth i ni fynd ymlaen; ac
- mae perfformiad yn gadarn ac mae'r Cyngor wrthi'n gweithio tuag at ffyrdd gwell a mwy effeithiol o reoli gwybodaeth.

## Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'i drefniadau cydweithio a'i drefniadau gweithio mewn partneriaeth ymhellach

57 Nododd ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yn 2010 fod dull y Cyngor o weithio mewn partneriaeth yn Sir Benfro, at ei gilydd, yn cynnig llwyfan da ar gyfer cyflawni newid a gwelliant, a bod y Cyngor wrthi'n cryfhau rhai agweddau ar weithio mewn partneriaeth ymhellach fyth.

58 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi gwneud trefniadau i resymoli ei gynlluniau a'i bartneriaethau ymhellach, ac adolygu rôl ei Fwrdd Gwasanaethau Lleol i gefnogi hyn. Mae hefyd yn adolygu ei drefniadau craffu er mwyn herio cynnydd y partneriaethau allweddol o ran cyflawni deilliannau gwell i ddinasyddion Sir Benfro. Byddem yn awgrymu y dylai'r adolygiad hwn o weithio mewn partneriaeth gynnwys gwerthusiad o'r trefniadau gweithio ar y cyd a secondio rhwng

y Cyngor a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda er mwyn sicrhau bod trefniadau'n effeithiol ac yn gynaliadwy, a bod y trefniadau llywodraethu yn gadarn.

59 Barnodd adroddiad arolygu Estyn ym mis Awst 2011 fod y trefniadau gweithio mewn partneriaeth mewn addysg yn ddigonol.

60 Adroddodd AGGCC hefyd yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ystod 2010-11 fod y Cyngor yn gwneud nifer o bethau'n dda mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth, fel a ganlyn:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- gwelliannau parhaus i drefniadau mynediad cychwynnol trwy ddatblygu desg gymorth broffesiynol integredig;
- sefydlu proses asesu integredig yn yr ysbyty a'r gymuned sy'n dangos perfformiad sy'n gwella'n barhaus i atal derbyniadau a hwyluso rhyddhau;
- datblygu timau a gwasanaethau asesu integredig newydd;
- gweithio cryf mewn partneriaeth a hyrwyddo'r agenda integreiddio mewn gwasanaethau oedolion;
- trefniadau partneriaeth mewn rhai meysydd gwasanaeth; a
- mynd ymlaen â'r broses integreiddio gwasanaethau mewn gwasanaethau cymdeithasol oedolion.

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei wneud i ddatblygu/gwella:

- adolygu'r trefniadau rheoli ar gyfer consortiwm mabwysiadu Gorllewin Cymru.'

61 Nododd gwerthusiad AGGCC y canlynol yn arfer da.

**Arfer da**

'Mae'r Cyngor wedi sefydlu timau asesu newydd i geisio gwella gwasanaeth ar bwyntiau gwahanol ar y llwybr gofal, ac i hwyluso rhyddhau'n amserol o'r ysbyty. Mae tîm rhyddhau o'r ysbyty ar y cyd wedi ymestyn ei oriau gweithio, ac erbyn hyn mae'n darparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol o 8 y bore hyd 8 yr hwyr. Trwy gysylltu â'r tîm cymorth asesu amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys nyrs, y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaeth therapïau, gwelwyd buddion amlwg gwasanaeth gwell i gleifion. Mae'r tîm rhyddhau o'r ysbyty ar y cyd a'r tîm adnoddau cymunedol yn gweithio'n agos â'r tîm cymorth asesu amlddisgyblaethol yn Ysbyty Llwynhelyg i atal derbyniadau diangen. Yn ystod 2010-11, cafodd 65 o dderbyniadau eu hatal lle naill ai darparwyd gofal priodol yn y gymuned neu lle rhoddwyd gwybodaeth/cyngor. Roedd y timau adnoddau cymunedol yn gallu cadw 18 defnyddiwr gwasanaeth arall yn eu cartrefi yn lle cael eu derbyn i'r ysbyty. Gwelir y datblygiadau hyn yn enghreifftiau o arfer da.'

## Mae'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd yn dal i ddatblygu

62 Daeth ein hastudiaeth o ymgysylltu â'r cyhoedd i'r casgliad fod y Cyngor wedi ymrwymo'n glir i hysbysu'r cyhoedd ac ymgynghori â'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw eto'n cyfleu effaith ymgysylltu'n glir ar ei broses benderfynu, nac yn cydnabod yn llawn y cyfleoedd a'r buddion y gallai ddod yn sgil ymgysylltu gwell â'r cyhoedd. Nododd ein gwaith yr arfer da canlynol.

> **Arfer da**
>
> Mae cymorth y Cyngor i FRAME, sef prosiect ailgylchu ac ailddefnyddio celfi yn cael ei arwain yn y gymuned, yn enghraifft o arfer da sydd wedi galluogi'r grŵp hwn i gael mwy o rym fel endid masnachol. Mae FRAME wedi goroesi a ffynnu am iddo lwyddo i ddatblygu capasiti a bod yn ddigon clir ynglŷn â'i fusnes i ddod yn hunangynhaliol. Mae FRAME bellach yn ehangu i feysydd rheoli diwastraff fel torri porfa a garddwriaeth. Mae FRAME yn enghraifft dda o'r Cyngor yn rhoi grym i'r cyhoedd gyflwyno prosiectau neu wasanaethau gwastraff ac ailgylchu, a busnes y sector cymunedol sy'n cael ei weithredu'n dda.

63 Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol diweddar o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ystod 2010-11 beth mae'r Cyngor yn ei wneud yn dda, a beth sydd angen iddo wneud i ddatblygu/gwella mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd, fel a ganlyn:

'Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- datblygu'r broses ymgysylltu ac ymgynghori â chwsmeriaid;
- dull arloesol o ddarparu arweiniad i wasanaethau gofal cymdeithasol; (gwasanaethau oedolion);
- ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a rhoi adborth ar gyfnodau gwahanol y broses asesu a rheoli gofal;
- datblygiadau gwasanaeth cadarnhaol sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi annibyniaeth; a
- gwella cynlluniau strategol ar gyfer gofalwyr ifanc.

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei wneud i ddatblygu/gwella:

- datblygu cynlluniau cymdogion da; a
- sicrhau bod barnau plant a phobl ifanc yn cale eu cofnodi ar gynlluniau ac mewn adolygiadau.'

64 Mae Crynodeb Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhoi dadansoddiad o'r holl gŵynion a dderbyniwyd ac yr ymchwiliwyd iddynt gan ei swyddfa mewn perthynas â'r Cyngor yn ystod 2010-11. Yn ei lythyr i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2011, noda fod perfformiad y Cyngor yn dangos cynnydd mawr yn nifer y cwynion a dderbyniwyd gan ei swyddfa, yn enwedig mewn perthynas â Thai a Chynllunio, a Rheoli Adeiladu. Mae'r ffigurau mewn perthynas â'r ddau faes cwyno hwn, yn ogystal â chyfanswm nifer y cŵynion a dderbyniwyd ganddo, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fu'n angenrheidiol i'r Ombwdsmon gychwyn unrhyw ymchwiliadau yn ystod 2010-11, a dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r cwynion i'w swyddfa fel rhai 'cynamserol'.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ac mae ar y trywydd iawn i gael Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith erbyn mis Ebrill 2012

65 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol y Cyngor am gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg o ran darparu dogfennau etholiadol yn Gymraeg, ac am ddarparu gwefan ddwyieithog gynhwysfawr. Y prif faes a nodwyd fel un yr oedd angen rhoi sylw pellach iddo oedd darparu data am sgiliau ieithyddol y gweithlu, a sut mae'r wybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio er mwyn cynllunio ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi paratoi Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

66 Mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae ganddo gynlluniau ar waith i baratoi cynllun cydraddoldeb strategol erbyn mis Ebrill 2012, gyda chymorth gan y Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol a phecynnau e-ddysgu i gynghorwyr a staff.

# Mae'r gwelliant mae'r Cyngor yn ei gyflawni mewn meysydd blaenoriaeth yn amrywio

67 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda mae'r Cyngor yn mynd ati i wella'i wasanaethau o dan bob un o'r wyth thema y mae wedi'u gosod fel rhan o'i Strategaeth Gymunedol a Chynllun Gwella fel fframwaith ar gyfer ei broses gweithio mewn partneriaeth a gwella gwasanaethau. Gellir cael mwy o wybodaeth am y rhain yn Atodiad 4.

68 Mae hefyd yn adlewyrchu barnau AGGCC mewn perthynas â gwasanaethau plant ac oedolion, a barnau Estyn mewn perthynas ag addysg, ac mae'n defnyddio ein hadolygiadau ein hunain o berfformiad y Cyngor yn erbyn yr amcanion gwella penodol y gosododd y Cyngor iddo'i hun i'w cyflawni yn ystod 2010-11.

## Mae perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn gyson, ond mae'r Cyngor wedi methu rheoli rhai risgiau a heriau sylweddol, gan arwain at ddeilliannau gwael i rai pobl mewn angen. Fodd bynnag, mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru

69 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dibynnu ar farnau, gwaith a gwerthusiadau AGGCC yn ystod y flwyddyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cynorthwyo pobl mewn angen. Crynhoir gwerthusiadau AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2010-11 fel yr amlinellwyd mewn llythyr at Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ym mis Hydref 2011. Rhoddir crynodeb o'r prif gasgliadau o werthusiad AGGCC yn y paragraffau canlynol.

70 'Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da eleni o ran mynd ymlaen ag agenda integreiddio ar y cyd ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Er bod gwasanaethau integredig yn dangos dulliau newydd o gynnal asesiadau, mae angen i dimau rheoli gofal ddangos gwell cysondeb, ansawdd ac amseroldeb. Mae angen i berfformiad o ran cofnodi asesiadau gofalwyr wella hefyd. Mae'r ystod gwasanaethau oedolion yn parhau i ddatblygu, ac o ganlyniad i integreiddio, mae'n dangos tystiolaeth glir o ddeilliannau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae diogelu oedolion yn parhau'n faes perfformiad cadarn i'r cyngor yn sgil arweinyddiaeth effeithiol y cydlynydd, ond mae angen iddo sicrhau trefniadau cyson bob amser. Dangosir lefel perfformiad dda a lefel perfformiad sy'n gwella wrth fynd ati i helpu cefnogi pobl i barhau i fyw yn y gymuned. Ar gyfer pobl hŷn bu cynnydd yn y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty am resymau cymdeithasol.

71 Mae gwasanaethau plant wedi cynnal lefel resymol o gynnydd dros y tair blynedd diwethaf, heb unrhyw anawsterau nodedig yn y dangosyddion perfformiad. Fodd bynnag, mae nifer o adolygiadau wedi nodi materion gydag ansawdd rhywfaint o arfer a'r ddarpariaeth gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i hyrwyddo gwelliant yn y maes hwn. Mae llawer o waith wedi'i gwblhau gyda'r adolygiad mewnol o gapasiti a strwythur yr asesiad o'r trefniadau rheoli gofal. Dylai'r trefniadau diwygiedig wella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth gwasanaethau llinell flaen. I gyflawni hyn bydd angen arweinyddiaeth gref, rheoli newid yn gadarn a chymorth corfforaethol da i

sicrhau llwyddiant y cynllun. Bydd angen i'r Cyngor fonitro a rheoli'r galw am wasanaethau plant yn fanwl, gyda'r niferoedd cynyddol o blant y mae eu henwau ar y gofrestru amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal.

72 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda statws sengl, wrth gynllunio'r gweithlu a rheoli perfformiad staff. Mae cyfleoedd hyfforddi a datblygu'n parhau, ac mae rhai enghreifftiau o hyfforddiant da. Mae'r strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer gwariant refeniw, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod tair blynedd o 2011 i 2014, wrthi'n cael ei ffurfioli. O gymharu â sefydliadau eraill, mae Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn fod y cyngor mewn lle da i ddelio â'r heriau ariannol sydd i ddod. Cafwyd cynnydd o ran datblygu bwriadau comisiynu ar gyfer rhai grwpiau gwasanaethau oedolion, gyda'r Cyngor yn ymgysylltu'n llawn â gwaith rhanbarthol i ddatblygu fframweithiau comisiynu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a phobl ag anghenion iechyd meddwl. Mae cyflawni'r cynllun gweithredu dementia yn flaenoriaeth i'r Cyngor y flwyddyn nesaf.

73 Digwyddiad arwyddocaol i'r Cyngor eleni fu'r her gan y sector annibynnol ynghylch lefelau ffioedd yn cael eu talu gan y cyngor am ofal preswyl. Denodd y canfyddiad barnwrol yn erbyn y Cyngor gryn sylw yn y cyfryngau.

74 Yn ystod mis Awst 2011, cyhoeddodd AGGCC ac Estyn adroddiad ar eu hymchwiliad ar y cyd i'r dull o reoli ac ymdrin â cham-drin proffesiynol, a'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant mewn gwasanaethau addysg yn Sir Benfro. O ganlyniad, bu'r Cyngor yn destun cyfarwyddyd Gweinidogol i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn effeithiol.'

75 Ym mis Medi 2011, fe wnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau benodi Bwrdd Cynghori Gweinidogol i gynorthwyo a herio'r Cyngor wrth iddo fynd ymlaen â'i gamau gweithredu ar gyfer gwella a newid.

76 Yn ei Werthusiad Blynyddol, mae AGGCC yn amlinellu prif feysydd cryfder a meysydd i'w datblygu/gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor, a chynhwysir rhai ohonynt yn yr adroddiad hwn. I gael copi llawn o'r rhain, ewch i adroddiad Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol AGGCC ar gyfer yn http://wales.gov.uk/docs/cssiw/publications/LA_evaluation1011/111028pemben.pdf.

77 Canfu ein hadolygiad o asesiad y Cyngor ynglŷn â pha un a gyflawnodd ei amcanion gwella i gynorthwyo pobl mewn angen y canlynol:

**Yn gyffredinol, yn erbyn ei thema lles, mae'r Cyngor wedi pennu cynlluniau clir ac wedi buddsoddi i wella'i berfformiad ac adeiladu partneriaethau effeithiol, er y gall gymryd cryn amser cyn i bobl leol weld deilliannau gwell yn eu hardaloedd**

78 Mae'r Cyngor, gyda'i bartneriaid, wedi rhoi strwythurau newydd ar waith i helpu ysgogi gwelliant yn y ffactorau ehangach iechyd a lles, gan gynnwys tlodi plant. Mae'r dirywiad economaidd wedi effeithio'n andwyol ar gynnydd yn y maes hwn ac mae rhagor o waith i'w wneud i fynd i'r afael â'r hyn sy'n fater cymhleth.

79 Parhaodd y Cyngor i wella gwasanaethau a fydd yn arwain at iechyd cyhoeddus gwell yn y tymor hwy drwy ystod o brosiectau i gynyddu gweithgarwch a helpu pobl fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw. Mae enghreifftiau o welliannau'n cynnwys:

- cynyddu cyfran y bobl sy'n defnyddio canolfannau hamdden yn rheolaidd o saith y cant, gan roi'r Cyngor yn chwartel uchaf perfformiad ar sail Cymru gyfan;
- mae cyfeiriadau meddygon teulu at glybiau ymarfer corff wedi cynyddu, gyda 45 y cant o gyfranogwyr yn bwriadu parhau i wneud ymarfer corff ar ôl i'r cynllun cyfeirio ddod i ben, gan helpu lleihau cyflyrau cronig;
- cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion uwchradd a chlybiau chwaraeon, yn arwain at fwy o brosiectau i wella lles, gan gynnwys: cynlluniau Bikeability; rhaglenni bwyta'n iach, a chlybiau achub bywyd yn gysylltiedig â'r RNLI;
- nofio am ddim ar Sadyrnau i bobl ifanc;
- agor neuadd chwaraeon newydd yn Nhyddewi, gan ei gwneud hi'n haws i bobl leol wneud gweithgareddau hamdden; ac
- mae Timau Adnoddau Cymunedol wedi cyfrannu at leihau nifer y bobl dros 65 oed sy'n cael eu derbyn i ysbytai.

80 Mae'r Cyngor yn cynorthwyo cyfran uwch o bobl sy'n agored i niwed, ac yn diwallu'u hanghenion, er enghraifft:

- mae 91 y cant o adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cyflawni o fewn graddfeydd amser statudol;
- mae 100 y cant o anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu hasesu, o gymharu â 41 y cant yn 2009-10;
- mae ceisiadau am fudd-daliadau yn cael eu prosesu'n gyflymach o lawer erbyn hyn, er gwaetha'r baich gwaith cynyddol; ac
- mae cyfradd y bobl hŷn sy'n cael cymorth yn y gymuned i fyny i 83 y cant yn erbyn targed o 68 y cant, ac mae cyfradd y bobl hŷn sy'n cael cymorth mewn cartrefi gofal i lawr i 17.9 y cant yn erbyn targed o 20 y cant.

**Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi gweithio'n galed i ddod â chyllid i mewn i'r sir i helpu datblygu cymunedau, ond nid oes modd asesu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei amcanion o fewn ei Thema Cymunedol**

81 Cododd y Cyngor £2.5 miliwn o gyllid allanol i gynorthwyo prosiectau cymunedol, ac o'r rheiny a gafodd gymorth, gwelodd 87 y cant niferoedd gwell yn cyfranogi neu'n mynychu. Mae cyfleusterau cymunedol newydd neu well yn cael eu rhoi ar waith, er enghraifft, yn gysylltiedig â'r cyfleusterau cymunedol newydd yn yr ysgol yn Nhegryn, mae cyfleuster cymunedol ar gyfer yr ardal yn cael ei ddatblygu. Mae cynlluniau yn y dyfodol yn bwriadu cynyddu'r defnydd o ysgolion lleol gan y gymuned.

82 Fodd bynnag, mae'r amcan hwn yn un eang iawn, ac nid yw o fewn gallu'r Cyngor i gyflawni pob un o'r deilliannau. Fe allai'r amcan felly fod yn fwy priodol ar lefel y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Os caiff ei gadw fel amcan y Cyngor, yna mae angen mesurau gwell i ddangos a yw gwelliannau gwirioneddol mewn deilliannau i bobl leol yn arwain o ymdrechion y Cyngor.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn gwella o fewn ei thema tai, ond gyda chynnydd sylweddol tuag at gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, nid yw bob amser yn gosod heriau ddigon heriol iddo'i hun**

83 Fe wnaeth y Cyngor berfformio'n dda yn atal digartrefedd, prosesu ceisiadau'n gyflymach a buddsoddi mewn llety mwy priodol. Mae'r gwasanaeth digartrefedd wedi'i drawsnewid yn y pum mlynedd diwethaf, ac erbyn hyn mae'n cymharu'n dda â gweddill Cymru.

84 Llwyddodd y Cyngor i wella'i berfformiad yn sylweddol o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn fwy amserol, a chyflawni dyletswyddau digartrefedd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac erbyn hyn mae'n llawer gwell na chyfartaledd Cymru.

85 Y Cyngor yw un o'r ychydig awdurdodau sy'n gwneud cynnydd da tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2012. Mae ar y blaen i bob un o'r cynghorau eraill, ac mae'n cynllunio i sicrhau bod ei dai yn bodloni'r safon erbyn terfyn amser gwreiddiol Llywodraeth Cymru, sef 2012. Mae ein hastudiaeth genedlaethol sy'n asesu *Cynnydd o ran cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru* yn cydnabod y cynnydd da sydd wedi'i wneud gan y Cyngor. Mae'n nodi yr adroddwyd bod 60 y cant o gartrefi yn Sir Benfro wedi bodloni SATC erbyn 31 Mawrth 2010. Ar draws Cymru, dim ond 15 y cant o gartrefi awdurdodau lleol yr adroddwyd eu bod wedi bodloni SATC erbyn 31 Mawrth 2010. Yn y chwe awdurdod hynny lle'r oedd y tenantiaid wedi pleidleisio yn erbyn trosglwyddo'u stoc tai i landlord arall, lle nad oeddent eto wedi pleidleisio, neu lle nad oedd y trosglwyddo wedi digwydd eto, nid oedd mwy nag un y cant o gartrefi'n bodloni SATC.

86 Fodd bynnag, ar gyfer rhai gwasanaethau tai eraill, mae tystiolaeth o ddiffyg uchelgais, gyda'r Cyngor yn gosod targedau perfformiad islaw perfformiad y flwyddyn flaenorol, neu ychydig uwchlaw. Mae enghreifftiau'n cynnwys plant sy'n derbyn gofal y mae'n hysbys eu bod mewn llety addas nad yw'n llety brys yn 19 oed. Yn 2009-10, cyflawnodd y Cyngor 94.1 y cant, ond yna gosododd darged o 80 y cant iddo'i hun ar gyfer 2010-11, a oedd yn is nag a gyflawnodd y flwyddyn flaenorol. Yn ddigon tebyg, ar ôl cyflawni 159 o ddiwrnodau yn 2009-10 i gyflawni ei ddyletswydd ar gyfer digartrefedd, gosododd y Cyngor darged o 160 o ddiwrnodau ar gyfer 2010-11.

## Barnwyd bod angen gwelliant sylweddol mewn addysg yn sgil diffygion mewn meysydd pwysig

87 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dibynnu ar farnau, gwaith ac arolygiadau gan Estyn yn ystod y flwyddyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cynorthwyo pobl i ddatblygu. Mae Estyn wedi rhoi crynodeb o berfformiad y

Cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol, fel yr amlinellir yn y paragraffau canlynol.

88 'Pan gaiff ystod o wybodaeth gyd-destunol ei hystyried, mae perfformiad dysgwyr yn Sir Benfro ychydig islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 1, mae tua'r un fath â'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2, ac ychydig uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad uwchlaw'r cyfartaledd ar ddau fesur, ond islaw'r cyfartaledd ar y tri mesur arall. Nid oes digon o ysgolion yn y 25 y cant uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru.

89 Mae tuedd am i lawr yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yn seiliedig ar hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2007, llwyddodd Sir Benfro i gyflawni pob un o'r tri meincnod hwn, yn 2008 cyflawnodd ddau feincnod, ond yn 2009 a 2010, dim ond un meincnod a gyflawnodd. Nid yw gwybodaeth feincnod ar gyfer 2011 ar gael eto.

90 Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd islaw'r cyfartaledd pan gaiff gwybodaeth gyd-destunol ei hystyried. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae nifer y gwaharddiadau chwe diwrnod neu fwy ymhell islaw cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae gwaharddiadau cyfnod byrrach wedi cynyddu, ac nid ydynt yn cymharu'n dda ag awdurdodau eraill.'

91 Rhoddodd Estyn grynodeb i'r Archwilydd Cyffredinol o'i arolygiad ym mis Mehefin 2011 o wasanaethau addysg Sir Benfro ar gyfer plant a phobl ifanc, fel a ganlyn.

92 'Barnodd arolygwyr fod gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw polisïau a systemau'r awdurdod lleol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc yn addas i'r diben;
- mae'r awdurdod wedi bodloni neu ragori ar saith yn unig o 12 o ddisgwyliadau meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedair blynedd diwethaf;
- nid yw dysgwyr yn gyffredinol yn perfformio ar y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 4; a
- dim ond digonol yw'r cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, ac maent wedi dirywio dros y pedair blynedd diwethaf.

93 Fodd bynnag:

- mae dysgwyr yn cyflawni safonau da yn gyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, a hefyd dysgwyr 17 oed sy'n sefyll arholiadau allanol;
- mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth ar gyfer mynediad a lleoedd ysgolion yn dda; ac
- yn gyffredinol, mae'r cyfraddau gwaharddiadau disgyblion o ysgolion yn isel, ac mae systemau da ar waith i ymgynghori â dysgwyr.

94 Barnodd arolygwyr fod rhagolygon gwella anfoddhaol gan yr awdurdod lleol oherwydd:

- bu methiant corfforaethol systemig i ymateb yn ddigonol i faterion diogelu;
- nid yw ansawdd y wybodaeth y mae swyddogion yn ei rhannu gydag aelodau

etholedig yn eu galluogi i herio perfformiad gwasanaethau ac ysgolion yn ddigonol;

- nid yw rheoli perfformiad yn y gorffennol wedi bod yn ddigon effeithiol o ran sicrhau gwelliannau yn erbyn rhai dangosyddion allweddol; ac
- mae gwerth am arian digonol yn cael ei gynnig.

95 Fodd bynnag:

- Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniadau anodd i leihau lleoedd dros ben yn ei ysgolion. Ers yr arolygiad diwethaf yn 2008, mae wedi cau chwech o ysgolion cynradd ac wedi agor dwy ysgol gynradd gymunedol, ac mae wedi buddsoddi £13.5 miliwn mewn ysgolion newydd ac ysgolion wedi'u hadnewyddu.
- Mae'r awdurdod wedi ymateb yn dda i'r rhan fwyaf o'r argymhellion o adroddiadau Estyn yn 2008 ar wasanaethau addysg a gwasanaethau cymorth ieuenctid.

96 Argymhellodd arolygwyr y dylai'r awdurdod, er mwyn parhau i wella:

1. cynnal arfarniad cynhwysfawr a thrylwyr o'r holl waith diogelu yn yr adran addysg ac yn ei ysgolion, gan gynnwys cymryd camau brys i unioni diffygion mewn llywodraethu a rheoli diogelu, ynghyd â swyddogaethau cysylltiedig yn yr adran adnoddau dynol;
2. codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4;
3. cynyddu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2011-2012;
4. gwella gwaith y pwyllgor goruchwylio a chraffu trwy:
    - ddarparu gwybodaeth lawn, berthnasol a thryloyw gan swyddogion er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig; a
    - hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig er mwyn sicrhau y gallant fod yn fwy effeithiol yn herio perfformiad gwasanaethau'r awdurdod a'i ysgolion, a'i drefniadau diogelu, er mwyn dwyn swyddogion i gyfrif;
5. gwella cywirdeb a thrylwyrder arfarniadau'r awdurdod ei hun o ba mor dda y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn perfformio, mewn perthynas â'r modd y mae gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth yn effeithio ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr; a
6. gwella'r gwasanaethau 'mynediad i gyfryngu' ar gyfer rhieni a gofalwyr.

97 Bydd cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn. Mae Estyn o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod, a hynny'n benodol yn sgil diffygion ym meysydd pwysig diogelu ac mewn methiannau cysylltiedig mewn diwylliant a systemau corfforaethol. Bydd yn ofynnol ail-arolygu'r awdurdod. Bydd dyddiad a ffocws yr ailarolygiad yn cael eu pennu gan Estyn.'

98 Gosododd y Cyngor dri amcan gwella ar gyfer 2010-11 yn ymwneud â datblygu pobl yn Sir Benfro, o dan y thema dysgu. Mae adroddiad arolygu Estyn o fis Mehefin 2011, fel y crynhowyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn cyfeirio at ei asesiad o ba un a yw'r Cyngor wedi bodloni'r amcanion hyn.

## Cafwyd cyflawniadau clir i wneud yr ardal yn lle diogel, ffyniannus a dymunol, ond mae ffocws rhai o'i flaenoriaethau'n ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor ddangos effaith ar ei ben ei hun

99 Gosododd y Cyngor 13 o amcanion gwella ar gyfer 2010-11 yn ymwneud â hyrwyddo lle diogel, ffyniannus a dymunol i fyw o dan bedair thema. Canfuwyd y canlynol yn ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o ba un a gyflawnodd ei amcanion gwella i ddarparu lle diogel, ffyniannus a dymunol i fyw:

**Mae pobl leol yn elwa o amgylchedd naturiol sy'n gwella**

100 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd. Mae cynlluniau cysylltiedig y Cyngor a'r gweithio mewn partneriaeth y mae'n rhan ohono yn awgrymu bod y thema hon yn faes i'r Cyngor ei wella. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae cynlluniau arbed carbon wedi'u hymgorffori yn y gwaith cynnal a chadw a gwella rheolaidd.
- Bydd pedair mil ar ddeg o oleuadau stryd yn cael eu diffodd rhwng hanner nos a 5.30 y bore er mwyn arbed 1,000 o dunelli metrig o $CO_2$ a £185,000.
- Gwnaed gwaith dichonoldeb i werthuso cynlluniau pellach i arbed ynni, gan gynnwys cored y Cleddau ar gyfer hydro drydan, a lliniaru risgiau llifogydd.
- Mae casgliadau gwastraff bwyd bellach wedi'u hymestyn i hanner yr holl gartrefi yn y sir, gan gyfrannu at 45.1 y cant o wastraff yn cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'u gompostio, yn erbyn perfformiad Cymru gyfan, sef 43.6 y cant. Mae'r Cyngor yn cynllunio i ymestyn casgliadau gwastraff bwyd ymhellach yn y blynyddoedd i ddod er mwyn ei alluogi i barhau i gwrdd â'r targedau cynyddol sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru.
- Barnwyd bod 97.5 y cant o briffyrdd y Cyngor a thir perthnasol o safon glendid 'uchel' neu 'dderbyniol' pan gawsant eu harolygu. Mae hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 93.8 y cant ar gyfer 2010-11.

101 Er bod dangosyddion y Cyngor yn adlewyrchu gwelliant eang yn y thema amgylchedd, mae rhywfaint o dystiolaeth y gallai'r Cyngor fod yn fwy uchelgeisiol, yn enwedig mewn maes a ddewisodd fel amcan gwella, ac sydd hefyd yn rhan o Strategaeth Gymunedol gytûn y sir. Er enghraifft:

- Ar ôl cyflawni gostyngiad o 2.5 y cant mewn allyriadau CO2 yn 2009-10, dim ond gostyngiad o ddau y cant oedd targed y Cyngor ar gyfer 2010-11, yn erbyn targed Llywodaraeth Cymru o dri y cant o 2011 ymlaen.
- Ar ôl cyflawni perfformiad 55.7 y cant mewn gwastraff trefol yn mynd i'w dirlenwi yn 2009-10, y targed ar gyfer 2010-11 oedd lleihau i 55 y cant yn unig. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r Cyngor, er mwyn bodloni targed Llywodraeth Cymru i ailgylchu 52 y cant o wastraff erbyn 2013, leihau'n sylweddol y gwastraff mae'n ei anfon i dirlenwi i 48 y cant erbyn hynny. Mae gan y Cyngor gynlluniau ar waith i wneud y gostyngiadau sylweddol hyn.

**Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da o ran gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad economaidd tymor hir y sir, er y bydd yn ei chael hi'n anodd mesur gwelliant**

102 Mae prosiectau i wella canol trefi ac i gefnogi'r sector twristiaeth ar waith neu yn yr arfaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ym Mhenfro, Doc Penfro, Hwlffordd, Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Abergwaun a rhai pentrefi arfordirol. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi datblygiad economaidd drwy grantiau ar gyfer datblygu eiddo ar safleoedd cyflogaeth strategol ac ar gyfer mentrau bach a chanolig mewn sectorau cymwys. Yn ogystal, mae oddeutu £3 miliwn o arian y Gronfa Datblygu Gwledig wedi'i sicrhau i gefnogi'r economi wledig.

103 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi pennu mesurau priodol a chymesur i wirio a yw ei amcanion gwella economaidd yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, nid oes unrhyw fesurau yn eu lle i asesu effaith gwella canol trefi, ac ni osodwyd unrhyw ddangosyddion ar gyfer cyfraniadau'n cael eu derbyn gan ddatblygwyr. Mae rhai dangosyddion yn rhoi mwy o ffocws ar fewnbynnau nag ar effaith a chyflawni deilliannau. Hefyd, ar gyfer rhai mesurau, nid oes gan y Cyngor fawr o allu, neu nid oes ganddo unrhyw allu i ddylanwadu arnynt, fel nifer yr ymholiadau gan fusnesau newydd a dderbyniwyd, neu'r gyfradd troi ymholiadau yn ymweliadau ym maes twristiaeth (ymweliadau'n deillio o geisiadau am lyfrynnau). Mae'r diffyg eglurder hwn ynglŷn â'i amcan gwella yn tanseilio rhywfaint o'r gwaith da a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid i wella'r economi a rhoi cynlluniau tymor hir ar waith ar gyfer datblygiad economaidd sylweddol pellach.

**Gall y Cyngor ddangos ei fod yn gwneud gwahaniaeth i bobl leol o ran ei gyfraniad at wella trafnidiaeth leol a mynediad, ond nid yw'n gosod targedau ddigon heriol iddo'u hun**

104 Mae cryn dipyn o waith i'w wneud eto o ran defnyddio cyllid, cyllid sydd eisoes wedi'i sicrhau mewn rhai achosion, er mwyn gwella mynediad at, ac o safleoedd cyflogaeth lleol pwysig ac i ehangu mynediad band eang ar draws y sir.

105 Gallai'r Cyngor fod wedi dewis dangosyddion perfformiad mwy priodol i fesur pa mor dda roedd yn darparu mynediad i'r sir. Efallai nad yw rhai dangosyddion, fel nifer y bobl 60+ oed sydd â chardiau teithio'n rhatach ar fysys, a nifer y teithwyr sy'n defnyddio bysys arfordirol, yn rhoi darlun clir o fynediad gwell i'r sir ac o amgylch y sir. Fodd bynnag, ni osodwyd unrhyw dargedau ar gyfer: gwella cyfathrebu band eang; mesur tarfu ar lif traffig; neu gallu mynd yn hawdd at ddigon o leoedd parcio, boed ar y stryd neu oddi ar y stryd.

106 Mae enghreifftiau o ddiffyg her ac uchelgais ym mhroses y Cyngor o osod targedau. Roedd targed i deithiau bysys leihau 11 y cant o 2009-10 i 2010-11, ac roedd targed i deithiau bysys arfordirol gynyddu dim ond 0.1 y cant. Rhagorwyd ar y ddau darged gan berfformiad gwirioneddol, gan 17 y cant a 40 y cant yn y drefn honno.

**Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn dangos perfformiad cynaledig cadarn ym maes lleihau troseddu a marwolaethau ac anafiadau ffordd, fodd bynnag, mae'n faes eang iawn i gyflawni gwelliant â ffocws ynddo**

107 Mae'r thema gwella diogelwch a ddewiswyd gan y Cyngor i gydweddu â themâu y Cynllun Cymunedol lleol yn faes eang iawn i gyflawni gwelliant â ffocws ynddo. Mae'n ymwneud â'r holl faterion o ddiogelwch bwyd, diogelwch y ffordd, i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid yw'r cyfryw ddangosyddion bob amser yn addas ar gyfer mesur gwelliant yn syml.

108 Fe wnaeth y Cyngor osod amcan gwella o dan ei thema diogelwch hefyd a oedd yn dweud 'byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau amddiffyn plant a ddarparwn.' Mae adroddiad arolygu Estyn, ymchwiliad Estyn ac AGGCC, ac Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol AGGCC o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ystod 2010-11, fel y crynhowyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn cyfeirio at eu hasesiad o ba un a yw'r Cyngor wedi bodloni'r amcan hwn yn ymwneud â threfniadau amddiffyn plant mewn addysg ac mewn gwasanaethau cymdeithasol. Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn hyrwyddo cyfleoedd i'r rhai sy'n gadael gofal gyflawni annibyniaeth economaidd, ac mae'n nodi fod ei berfformiad bellach yn faes cryfder.

## Mae adroddiadau'r Cyngor ar ei berfformiad yn parhau i wella, ond mae angen i'w broses ar gyfer gwerthuso cryfderau a gwendidau fod yn fwy heriol mewn rhai meysydd

109 Yn awdurdodau lleol Cymru, mae hunanasesiadau corfforaethol a hunanasesiadau gwasanaeth yn elfennau allweddol nifer o fframweithiau gwella a sicrwydd, fel Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer Addysg, Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor mewn gwasanaethau cymdeithasol, a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol awdurdodau lleol. Mae hunanasesiadau eraill yn ofynnol i baratoi ar gyfer archwiliadau ac arolygiadau rheoleiddiol, ac ar gais Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

110 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried pa mor dda yw hunanwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad. Mae hunanwerthuso cywir a chadarn yn hanfodol i allu'r Cyngor i:

- adnabod y cynnydd mae'n ei wneud;
- cymryd camau unioni pan na fydd perfformiad yn cyrraedd lefelau disgwyliedig a phan na fydd deilliannau dymunol yn cael eu cyflawni; ac
- adrodd ar ei berfformiad i ddinasyddion lleol mewn ffordd gytbwys ac arfarnol.

111 Adroddwyd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y tro cyntaf eleni (gan ddisodli'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol) ac mae'n unol a'r gofynion disgwyliedig. Ym mis Mehefin 2011, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, yn amlinellu ymagwedd y Cyngor at y chwe egwyddor graidd a nodwyd yn fframwaith CIPFA/SOLACE: *Delivering Good Governance in Local Government*. Hwn yw'r fframwaith y bydd angen llunio Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn ei erbyn yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r egwyddorion craidd fel y modd i asesu effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor.

112 Cadarnhaodd ein harchwiliad o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol y Cyngor yn 2011 fod y Cyngor wedi rhoi systemau digonol ar waith i gynhyrchu'r holl ddangosyddion perfformiad cenedlaethol. Dim ond un dangosydd (sef canran anheddau'r sector preifat sydd wedi bod yn wag a ddychwelwyd i feddiannaeth o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan y Cyngor) yr adroddwyd amdano fel un annibynadwy ar gyfer 2010-11, ond mae trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i wella'r data a ddefnyddir i gyfrifo'r dangosydd hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

113 Yn unol â gofynion statudol, cyhoeddodd y Cyngor ei adolygiad o berfformiad yn 2010-11 erbyn 31 Hydref 2011 yn ei adroddiad Adolygiad o Welliant. At ddibenion adrodd, mae'r Cyngor wedi cydgrynhoi'r 26 o amcanion gwella gwreiddiol o fewn wyth thema'r Strategaeth Gymunedol, gan eu gosod yn eu cyd-destun strategol a symleiddio'r cyflwyniad. Mae'r adolygiad wedi'i ysgrifennu'n dda ac mae'n hawdd ei ddilyn. Mae'n cynnwys gwerthusiad clir o ba mor dda y creda'r Cyngor ei fod wedi perfformio, ac yn gyffredinol mae'n deg a chytbwys, yn tynnu sylw at feysydd perfformiad cryf a'r rhai gwannach. Ategir y gwerthusiad hwn gan dystiolaeth o'r pethau y mae'r Cyngor wedi gwneud ar ei ben ei hun ac mewn partneriaeth ag eraill, y cynnydd mae'n ei wneud tuag at ei uchelgeisiau tymor hir, a'r effaith mae hyn yn ei chael o ran safonau ansawdd a dangosyddion perfformiad. Mae crynodeb ar gael – er na chynhyrchwyd hwn tan ar ôl 31 Hydref. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r crynodeb a'r prif adolygiad yn y wasg leol. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan y Cyngor ac ar ffurf copi caled mewn amryw leoliadau i gwsmeriaid.

114 Caiff gwybodaeth perfformiad ei chymharu â thueddiadau blaenorol, y targedau a osodwyd a pherfformiad awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae rhai bylchau, lle na ddarperir unrhyw dystiolaeth, neu lle darperir tystiolaeth gyfyngedig yn unig, yn nodedig mewn perthynas ag elfennau o'r themâu Amgylchedd, Cymuned a Diogelwch. Hefyd, fe allai'r sail dystiolaeth fod yn gadarnach mewn rhai meysydd, er enghraifft, gwneud mwy o ddefnydd o adborth cwsmeriaid, canlyniadau meincnodi ac adolygiadau mewnol ac allanol. Ond ar y cyfan, mae'n glir fod y Cyngor wedi ceisio darparu darlun cytbwys o berfformiad ac i arfarnu hyn mewn ffordd onest a thryloyw.

115 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor, fel llawer o gynghorau eraill, wedi gallu adrodd ynghylch sut mae ei weithredoedd a'i welliannau wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl leol oherwydd y wybodaeth mae wedi dewis ei mesur ac adrodd arni. Mae tystiolaeth y Cyngor o gynnydd yn dibynnu'n helaeth ar ddisgrifio camau gweithredu ac allbynnau. Ychydig o fesurau llwyddiant wedi'u teilwra a mesurau llwyddiant effaith sydd ar waith, ac mae gorddibynnu yn yr adroddiad ar ddangosyddion perfformiad statudol presennol i fonitro cynnydd. Er bod targedau wedi'u gosod ar gyfer yr holl ddangosyddion, fe all y Cyngor fod eisiau ystyried gosod targedau sy'n fwy ystyrlon a heriol mewn rhai meysydd. Nid yw cynnydd yn erbyn rhai themâu gwella tymor hir a strategol, fel Cymuned ac Economi, yn cael eu gwerthuso'n ddigonol, a hynny o bosibl oherwydd diffyg cerrig milltir dynodedig ac anawsterau yn diffinio cyfraniad y Cyngor at weithgarwch trawsbynciol ac amlasiantaeth.

116 Mae systemau priodol ar waith i gefnogi gwelliant yn y dyfodol. Yn gyffredinol mae trefniadau rheoli perfformiad wedi'u sefydlu'n dda. Caiff perfformiad ei adolygu'n ffurfiol gan uwch reolwyr a chynghorwyr yn rheolaidd. Bydd yr hawl a roddwyd yn ddiweddar ar gyfer cynyddu mynediad i system Ffynnon y Cyngor yn galluogi cynghorwyr i fonitro cynnydd yn barhaus. Mae tîm arbenigol ar waith i gefnogi gwelliant ac i rannu dysgu ar draws y Cyngor. Mae'r Cyngor yn dysgu o brofiad, ac mae wedi dechrau mynd i'r afael â rhai gwendidau a nodwyd yn ei ddull o gynllunio ar gyfer gwella, er enghraifft, wrth ddatblygu mesurau llwyddiant sy'n fwy seiliedig ar ddeilliannau.

117 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu bod y Cyngor wedi cyflawni pob un o'i ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am welliant. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, yn benodol o ran:

- esbonio'n gliriach pam mae cymariaethau wedi'u gwneud neu heb eu gwneud; a
- datblygu ymhellach y gyfres o fesurau mae'n eu defnyddio, gan gynnwys mesurau deilliannau, i ddangos tystiolaeth o welliant.

118 Barnodd Arolygiad Estyn o wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Awst 2011 fod gwelliant ansawdd y gwasanaeth yn ddigonol, ac mae'n nodi bod angen i'r Cyngor 'wella cywirdeb a thrylwyrder ei arfarniadau ei hun o ba mor dda y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn perfformio. Mae trefniadau hunanarfarnu cynhwysfawr gan yr Awdurdod ar gyfer addysg. Fodd bynnag, nid yw adroddiad hunanarfarnu'r Awdurdod yn mynd ati'n ddigon da i gydnabod yr holl feysydd lle mae'n tanberfformio.'

119 Nododd hefyd, ‘nid yw rheoli perfformiad yn y gorffennol wedi bod yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliannau mewn rhai dangosyddion allweddol, fel y tanberfformio yng nghyfnod allweddol 4. Yn ddiweddar, penodwyd uwch dîm rheoli addysg newydd gan yr Awdurdod. Maent wedi canolbwyntio sylw’n briodol ar feysydd lle mae perfformiad yn rhy araf yn gwella, neu’n dirywio. Gan weithio o fewn y fframwaith rhanbarthol newydd, mae’r Awdurdod wedi nodi cyfres o gamau i wella gwasanaethau. Mae’r camau wedi’u blaenoriaethu’n briodol, ac yn cynnwys mesurau llwyddiant addas. Maent yn cynnwys ffocws manwl ar wella’r defnydd o ddata perfformiad ac ar wella deilliannau. Mae’n rhy gynnar eto, fodd bynnag, i adrodd ar effeithiau’r mentrau hyn ar godi safonau.’

120 Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol y Cygnor yn ystod 2010-11 beth mae’r Cyngor yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddo wneud i ddatblygu neu wella mewn perthynas â hunanwerthuso a monitro perfformiad, fel a ganlyn:

‘Beth mae’r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- Tystiolaeth o fonitro perfformiad a deilliannau gwasanaethau (oedolion) er enghraifft, data’r tîm cymorth ar yr asesiad amlddisgyblaethol.

Beth sydd angen i’r Awdurdod Lleol ei ddatblygu/ei wella:

- Cwblhau adolygiad o’r fframwaith sicrhau ansawdd a’r arweiniad goruchwylio.’

121 Nododd hefyd: ‘Mae’r gwasanaethau plant yn cynnwys fframwaith rheoli perfformiad, ac mae proses systematig o adrodd i’r uwch reolwyr. Mae’r fframwaith sicrhau ansawdd a’r arweiniad goruchwylio wrthi’n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Climbie.’

122 Mae’r Cyngor wedi ymateb yn dda i’n cynigion ar gyfer gwella, ac mae wedi gwneud gwelliant sylweddol mewn nifer o feysydd, er bod gwaith yn dal i fynd rhagddo. Amlinellir crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o’r cynigion ar gyfer gwella ym mhob un o’n hadroddiadau yn Atodiad 5.

123 Nododd adroddiad arolygu Estyn ym mis Awst 2011, ‘mae’r awdurdod wedi mynd i’r afael yn briodol â’r rhan fwyaf o’r argymhellion o adroddiad arolygu Estyn yn 2008 ar wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw’r argymhellion i sicrhau her fwy cyson a phriodol i ysgolion ac i wella hunanasesu wedi bod yn ddigon effeithiol i godi safonau.’

124 Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol y Cygnor yn ystod 2010-11 beth mae’r Cyngor yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddo wneud i ddatblygu neu wella mewn perthynas â bwrw ymlaen â chynlluniau gweithredu ac argymhellion, fel a ganlyn:

‘Beth mae’r Awdurdod Lleol yn ei wneud yn dda:

- Rhoi cynlluniau gweithredu ar waith o adolygiadau blaenorol; (mae hyn yn cynnwys adolygiad diogelu AGGCC yn 2009, argymhellion o adolygiad achosion difrifol, ac argymhellion o ymchwiliad i gŵyn a gynhaliwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn ymwneud â phryderon ynghylch amddiffyn plant).

Beth sydd angen i'r Awdurdod Lleol ei wneud er mwyn datblygu/gwella:

- Datblygu trosolwg o gynllunio ar gyfer parhad a gwella ystod ac ansawdd gwasanaethau cymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Monitro'r cynnydd mewn gweithdrefnau amddiffyn plant er mwyn sicrhau nad effeithir ymhellach ar amseroldeb gan unrhyw gynnydd mewn niferoedd.'

125 Canfu Arolygiad Arbennig yr Archwilydd Cyffredinol er bod y Cyngor wedi dangos rhai priodweddau cadarnhaol iawn mewn perthynas â'i ddiwylliant a'i amgylchedd gweithredu, fod angen gwelliannau er mwyn sicrhau y gall y Cyngor gynnal goruchwyliaeth wleidyddol a goruchwyliaeth reoli ddigonol, a dwyn pobl i gyfrif yn briodol. Mae angen ffurfioli a chryfhau rhai trefniadau yn hytrach na chyflwyno newidiadau ar raddfa fawr i fodelau llywodraethu a rheoli.

126 Canfu'r arolygiad hefyd fod canlyniad anfwriadol diwylliant ymddiriedus ac anffurfiol y Cyngor yn gwanhau atebolrwydd, ac nad oes sail gadarn i hyder y Cyngor yn ei drefniadau llywodraethu a rheoli, a bod hyn yn dangos diffyg ymboeni. Mae'n amlwg i ni bod y cydbwysedd rhwng anffurfioldeb ac ymddiriedaeth ar yr un llaw, a mecanweithiau sicrwydd digonol ar y llaw arall, wedi gwyro'n ormodol o blaid y cyntaf.

127 Mae'r materion hyn yn effeithio ar allu'r Cyngor i werthuso'i berfformiad yn gadarn ac adrodd yn gyhoeddus ar ei berfformiad. Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau craffu er mwyn cyfrannu'n fwy effeithiol at ei hunanwerthuso. Rydym yn cydnabod bod y Cyngor yn cymryd camau i wella'i drefniadau rhannu gwybodaeth a'i adroddiadau i'r cyhoedd.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro

## Y Cyngor

Mae Cyngor Sir Penfro yn gwario oddeutu £337 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn gyfwerth â rhyw £2,878 fesul preswylydd. Yn yr un flwyddyn, fe wnaeth y Cyngor wario £34.8 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn 2010-11 ar gyfer Sir Benfro oedd £895.47 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.06 y cant i £922.83 y flwyddyn ar gyfer 2011-12; mae 66.2 y cant o'r anheddau yn Sir Benfro ym mandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 60 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- Tri deg a naw Annibynnol
- Pum Ceidwadwr
- Pump o Blaid Cymru
- Pedwar o'r Blaid Lafur
- Chwech amhleidiol
- Un sedd wag

Prif Weithredwr y Cyngor yw Bryn Parry-Jones ac fe'i cefnogir gan ei Dîm Rheoli fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Cyllid a Hamdden: Mark Lewis
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol: Jon Skone
- Cyfarwyddwr Datblygu: Steven Jones
- Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant: Graham Longster
- Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a'r Amgylchedd: Ian Westley

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad ar gyfer Sir Benfro yw:

- Paul Davies, Plaid Geidwadol Cymru (Etholaeth Preseli Sir Benfro)
- Angela Burns, Plaid Geidwadol Cymru (Etholaeth Caerfyrddin a De Sir Benfro)
- Rebecca Evans – Llafur (Rhanbarthol)
- Simon Thomas – Plaid Cymru (Rhanbarthol)
- Joyce Watson – Llafur (Rhanbarthol)
- William Powell – Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Rhanbarthol)

Yr aelodau Seneddol ar gyfer Sir Benfro yw:

- Stephen Crabb, Preseli Sir Benfro, Plaid Geidwadol Cymru
- Simon Hart, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Plaid Geidwadol Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.pembrokeshire.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn: Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig i Aelodau Cyngor Sir Penfro

Fel y byddwch yn gwybod, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012, a bydd rhai o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn, sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriadwyd i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol ond fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor ac i'r cyhoedd fel rhan o'r Cynllun Gwella Blynyddol, ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Penfro â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiad ariannol, er bod rhai meysydd lle gellir gwella hyn. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i adolygu atebolrwydd democratig a'r trefniadau llywodraethu, a chyflwynir adroddiad arnynt maes o law.**

**1** Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**2** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

**3** Ar 26 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor. Cynhwysir f'adroddiad yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd nifer o faterion yn codi o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'w hystyried, cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac rwyf wedi rhoi adroddiad manwl i swyddogion yn nodi lle gellir gwneud gwelliannau pellach.

**4** O 2010-11 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio'u cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.  Yn sgil cyflwyno'r safonau newydd hyn gosodwyd gofynion ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Er gwaetha'r pwysau ychwanegol, rwy'n falch o adrodd y paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol.

5 Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

6 Yn ogystal, o ganlyniad i bryderon a godwyd yn adroddiadau Estyn ac AGGCC a gyhoeddwyd ar 11 Awst 2011, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiad arbennig i ystyried atebolrwydd democratig a threfniadau llywodraethu. Adroddir ar wahân ar y canfyddiadau o'r gwaith hwn.

7 Mae fy llythyr yn nodi rhai materion y bydd angen rhoi sylw iddynt mewn cysylltiad â threfniadau adrodd ariannol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. Yn benodol:

- Mae trefniadau rheoli cyllideb yn effeithiol o ran cefnogi cywirdeb y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, yng ngolau cyfyngiadau ariannol cynyddol, mae angen i'r broses adrodd am gyllideb barhau i gael ei datblygu er mwyn dangos yn gliriach unrhyw heriau sylweddol y bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn.
- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ddarn o ddeddfwriaeth sylweddol a bydd yn cael cryn effaith ar drefniadau llywodraethu'r holl gyrff llywodraeth leol. Bydd angen i'r Awdurdod adolygu ei drefniadau i sicrhau ei fod yn gallu cydymffurfio â'r gofynion statudol wrth iddynt ddod i rym. Un o'r rhain fydd sefydlu pwyllgor archwilio, a bydd fy nhîm ymgysylltu yn gweithio gyda swyddogion, fel bo'n briodol, i gynorthwyo â datblygu'r gofyniad hwn.
- Adroddwyd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y tro cyntaf eleni (gan ddisodli'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol) ac mae'n unol a'r gofynion disgwyliedig. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2011, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, yn amlinellu ymagwedd y Cyngor at y chwe egwyddor graidd a nodwyd yn fframwaith CIPFA/SOLACE: Delivering Good Governance in Local Government. Hwn yw'r fframwaith y bydd angen llunio Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn ei erbyn yn y dyfodol, a bydd fy nhîm ymgysylltu yn trafod hyn ymhellach gyda swyddogion er mwyn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma.

8 Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 26 Medi 2011.

9 Disgwylir ar hyn o bryd i ffi'r archwiliad ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn unol â hynny a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Penfro

## Amcanion gwella Cyngor Sir Penfro

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Gosododd Cynllun Gwella Sir Benfro 2010-11 26 o Amcanion Gwella o dan wyth thema'r Strategaeth Gymunedol iddo'u cwblhau yn ystod y flwyddyn honno. Ar gyfer 2011-12 mae'r Cyngor wedi lleihau hyn i wyth o amcanion sy'n adlewyrchu wyth thema'r Strategaeth Gymunedol i'w cwlbhau yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r amcanion o'r llynedd ac ar gyfer eleni fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **LLES** | |
| **1** | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd gwael. |
| **2** | Byddwn yn hyrwyddo iechyd cyhoeddus a chyfleoedd ar gyfer byw'n iach. |
| **3** | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i leddfu effaith tlodi. |
| **4** | Byddwn yn cefnogi prosiectau a fydd yn gwella integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **5** | Byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol yr ydym yn eu darparu. |
| **AMGYLCHEDD** | |
| **6** | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i liniaru effaith newid yn yr hinsawdd. |
| **7** | Byddwn yn parhau i wella ein gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu. |
| **8** | Byddwn yn gweithio i ehangu ein hamgylchedd naturiol a chynnal ein hynodrwydd diwylliannol a hanesyddol. |

| Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 | |
|---|---|
| **1** | Byddwn yn gweithredu i gefnogi byw'n annibynnol ac yn iach. |
| **2** | Byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon ac yn gweithredu'n fwy cynaliadwy. |
| **3** | Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wella economi Sir Benfro. |
| **4** | Byddwn yn cefnogi datblygu cymunedau bywiog a chynaliadwy. |
| **5** | Byddwn yn cefnogi datblygu tai priodol yn Sir Benfro. |
| **6** | Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau addysg o ansawdd uchel a ddarparwn. |
| **7** | Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wella cysylltiadau cyfathrebu â Sir Benfro ac yn Sir Benfro. |
| **8** | Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod Sir Benfro'n parhau'n lle diogel. |

| Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **ECONOMI** | |
| **9** | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wella potensial Sir Benfro ar gyfer creu cyfoeth. |
| **10** | Byddwn yn parhau i wella canol ein trefi. |
| **11** | Byddwn yn cefnogi busnesau lleol. |
| **Y GYMUNED** | |
| **12** | Byddwn yn cefnogi datblygu cymunedau bywiog a chynaliadwy. |
| **13** | Byddwn yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol. |
| **TAI** | |
| **14** | Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n cynyddu'r cyflenwad o dai priodol. |
| **15** | Byddwn yn parhau i wella ansawdd stoc tai'r Cyngor. |
| **DYSGU** | |
| **16** | Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n gwella lefelau sgiliau yn Sir Benfro. |
| **17** | Byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau addysg a ddarparwn. |
| **18** | Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol. |

| Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 | |
|---|---|
| **MYNEDIAD** | |
| **19** | Byddwn yn gweithio i wella cysylltiadau cyfathrebu â Sir Benfro, o Sir Benfro ac yn Sir Benfro. |
| **20** | Byddwn yn parhau i wella mynediad i'r gwasanaethau a ddarparwn. |
| **21** | Byddwn yn hyrwyddo teithio cynaliadwy. |
| **22** | Byddwn yn gwella mynediad i fannau gwyrdd. |
| **DIOGELWCH** | |
| **23** | Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n lleihau ofn troseddau. |
| **24** | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| **25** | Byddwn yn parhau i wella ansawdd y gwasanaethau amddiffyn plant a ddarparwn. |
| **26** | Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n gwella diogelwch ar y ffordd ac yn y cartref. |

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella, a gellir ei weld ar wefan y Cyngor yn:
http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,1566&parent_directory_id=646&language=CYM&pagetype=&keyword

## Hunanasesiad Cyngor Sir Penfro o berfformiad

Cyhoeddwyd hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2010-11 erbyn 31 Hydref 2011, a gellir ei weld yn ei *Adolygiad o Welliant 2010-2011* sydd ar gael gan y Cyngor ac ar ei wefan:
http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,1566,1572&parent_directory_id=646&id=19362&language=CYM&pagetype=&keyword=

# Atodiad 5
# Crynodeb o gynnydd Cyngor Sir Penfro yn erbyn cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | Crynodeb o gynnydd y Cyngor | Gweithredu gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| Cynnwys cysylltiadau cliriach rhwng amcanion gwella, camau gweithredu gwasanaeth, mesurau perfformiad a deilliannau yng Nghynllun Gwella'r Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi rhoi strwythur gwahanol i Gynllun Gwella 2011-12 fel bod cysylltiad cliriach rhwng deilliannau manwl, nodau gwasanaethau a chamau gweithredu gwasanaethau. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu Cynllun Gwella 2012-13 yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad. |
| Cyhoeddi mwy o fesurau yn ei gynlluniau gwella yn y dyfodol nag a gynhwysodd yng Nghynllun Gwella eleni, fel y mae wedi gwneud yn ei Adolygiad o Welliant, er mwyn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad i'r cyhoedd. | Mae'r Cyngor wedi cynyddu nifer y mesurau yng Nghynllun 2011-12 gryn dipyn o gymharu â fersiwn 2010-11. Mae'r Cyngor wedi cynnwys dangosyddion lleol, fel rhai mesurau deilliannau; mae'r Cynllun yn cynnwys 86 o ddangosyddion i gyd. Mae'r Cyngor yn parhau i nodi mesurau deilliannau pellach ar gyfer y dyfodol. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu Cynllun Gwella 2012-13 yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad. |
| Ystyried pa un a oes angen iddo adolygu, blaenoriaethu a lleihau nifer yr amcanion gwella yng ngolau'r hinsawdd ariannol. | Mae'r Cyngor wedi lleihau nifer yr amcanion gwella o 26 i 8. Mae hyn yn rhoi ffocws cliriach ar yr hyn sy'n bwysig yng nghyd-destun cyfyngiadau cynyddol ar y gyllideb. | Dim gweithredu pellach. |
| Mewn adolygiadau gwella yn y dyfodol: pennu'n gliriach sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â materion cydraddoldebau a chynaliadwyedd, a chysylltu cyflawniadau'r Cyngor yn gliriach ac yn fwy amlwg â'i feysydd gwella a deilliannau. | Mae Cynllun Adolygu Gwelliant 2011-12 yn cynnwys paragraffau penodol ar faterion cynaliadwyedd a chydraddoldebau. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu Cynllun Gwella 2012-13 yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad. |
| Sicrhau bod mesurau llwyddiant perthnasol ar waith ar gyfer yr holl amcanion gwella, a bod targedau'n ddigon heriol o fewn cyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a dyheadau'r cyhoedd. | Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ymagwedd yn y maes hwn. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu Cynllun Gwella 2012-13 yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk